

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 1af o Hydref, 2020 drwy 'Zoom', am 8:00y.h.

Nid oedd yn bosib cynnal cyfarfod cyffredin yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.

Yn bresennol drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Aled Davies (Cadeirydd), Aled Evans, Trefor Wyn Jones, Naomi Jones, Thomas Prys Jones, Angela Williams, Margaret Griffith, Gareth O.Davies a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau: Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Anwen Jones, Ceri Jones, Tegid Jones, Darren Morley, Sian Angharad Parry, William Ifor Hughes, a Sion Aled Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 3ydd o Fedi 2020. Bydd angen i'r Clerc wneud trefniadau i'r Cadeirydd ei llofnodi cyn cyfarfod mis Tachwedd 2020.

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Medi 2020 - (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi cyn y cyfarfod ar 01.10.2020).

4. Datgan buddiant personol - neb.

5. Materion gan Cyngor Gwynedd

6. Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned - dim un newydd.

a) Cae Bodlondeb, ger Ael y Bryn, Chwilog. Fe gefnogwyd y cais yn y cyfarfod diwethaf 03.09.2020, ond yn ystod y mis daeth ymholiad gan aelod o'r cyhoedd, yn holi am y sefyllfa hefo llifogydd yn y rhan yma o'r pentref, a bod angen gwneud yn siwr fod hyn yn cael ei ystyried. Derbyniwyd gwybodaeth fod y Cynghorydd Aled Evans mewn cyswllt â'r Adran Cynllunio ynglŷn â'r mater, ac fe anfonwyd yr ateb isod at y Clerc gan yr Adran Cynllunio:-

"Mae yna amod cynllunio i gytuno cynllun draenio ar gyfer y safle, ac byddai Uned Draenio Tir y Cyngor, Dwr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig sylwadau ar y cynllun draenio sydd gerbron. Petai yn dderbyniol byddai'n ofynnol iddynt ei ddarparu yn unol a'r cynllun a ganiatawyd.

Petai'r cynllun ddim yn dderbyniol mae posib i'r ACLI ganiatau'r ceisiadau materion a gadwyd yn ol (os yn dderbyniol ym mhob ystyr arall yn amlwg) ond byddai'n rhaid i'r ymgeisydd/datblygwr gyflwyno cais cynllunio i rhyddhau'r amod cytuno cynllun draenio cyn cychwyn ar unrhyw waith ar y safle. Nodaf hefyd byddai angen caniatad system draenio cynaliadwy ar y cynllun cyn cychwyn gwaith hefyd." Eglurodd y Cynghorydd Aled Evans y byddai yn delio hefo'r mater gan adael i'r Cyngor Cymuned wybod beth oedd y datblygiadau.

b) Plas Gwynfryn, Llanystumdwy - ymgynghoriad - y Clerc wedi derbyn y wybodaeth gan y Cynghorydd Aled Evans, ac angen sylwadau cyn 04.10.2020.

Oherwydd na dderbyniodd y Cyngor Cymuned y wybodaeth gan gwmni Partington Associates, cytunwyd y byddai y Cynghorydd Aled Evans yn anfon ateb atynt.

Materion yn y gymuned.

7. Llanystumdwy

a) Pont Llanystumdwy – clirio tir y Cyngor yn Maenywern. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ateb hefo cael prisiau i dorri'r brigau sydd yn hongian dros y clawdd ar hyd y lon o'r bont am y bedd, mae wedi cysylltu â Mr William Williams, Plas Newydd, Chwilog a Mr Erfyl Lloyd, Castellcoed, Chwilog. Gobeithio cael prisiau erbyn ein cyfarfod nesaf.

b) Brigyn peryglus – coeden gyferbyn a bedd Lloyd George, a cheir yn parcio gerllaw ac yn beryglus. Roedd y Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan y cyn Glerc Mr Richard Roberts (ac wedi diolch iddo), yn dweud ei fod llifio a chlirio'r brigyn oherwydd ei fod yn beryglus.

8. Rhoslan/Ynys

Man pasio ger Fron Oleu Uchaf – derbyniwyd ymholiad gan y cyhoedd, a bu'r Is-gadeirydd yn gweld y safle. Yna gofynwyd i'r Clerc wneud ymholiad hefo Cyngor Gwynedd i holi os oedd yn bosib:

- clirio'r man pasio sydd wrth ymyl Fron Oleu Uchaf. Mae'r man yn fwdlyd ar hyn o bryd efo darnau mawr o faw arno, a byddai cerbydau mawr yn cael trafferth pasio eu gilydd fel ag y mae o rwan.
- y gongl sydd wrth ymyl Fron Oleu Uchaf pan yn mynd am gyfeiriad Capel y Beirdd.

Derbyniwyd yr ateb isod gan Mr A. Roberts, Peiriannydd Ardal Dwyfor yn dweud:-

“Cadarnhaf fy mod wedi ymweld â'r safle. Mae trefniant mewn lle i dorri gordyfiant o fewn y briffordd yn ôl ar y terfyn ar big y tro. Mae rhaglen waith torri gordyfiant o'r fath yn cael ei drefnu rwan gan fod y cyfnod nythu, yr awgrymir ein swyddogion bioamrywiaeth i ni beidio torri, yn dod i ben”. Derbyn y wybodaeth.

9. Chwilog

a) Lon rhwng Tyddyn Heilyn a Chwilog Fawr – mae tyllau mewn rhannau o'r lon sydd angen ei trwsio. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

b) Ffordd rhwng Chwilog ac Afonwen – Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd i weld beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf, gan dderbyn yr ymateb isod ar 01.10.2020:-

“Ymhellach i'm llythyr dyddiedig 19 Mai, 2020, yn anffodus nid yw'r cynllun llwybr rhwng Chwilog ac Afonwen wedi derbyn arian grant y flwyddyn ariannol hon. Er hyn, byddwn yn parhau i geisio am arian grant i ddatblygu'r cynllun ymhellach os fydd cyfleon ar gael i ni yn y dyfodol.

Hyderaf fod yr uchod yn esbonio ein sefyllfa bresennol ar y mater a byddwn yn cadw mewn cyswllt a chi gyda unrhyw datblygiadau pellach”.

Gofynnwyd i'r Clerc (ar y cyd â'r Cynghorydd Aled Evans) anfon llythyr atynt i egluro'r siom, ac i ddweud fod y mater wedi cael ei drafod flynyddoedd yn nol, ac i ofyn am fwy o wybodaeth.

10. Pencaenewydd/Sardis

a) Arwydd 'Dim baw cwn' yn y pentref, oherwydd fod problem yno. – Y Clerc wedi gofyn wrth Cyngor Gwynedd am osod arwydd yno.

b) Coed peryglus – cangen sylweddol gyferbyn a beudai 'Lodge'. Y Clerc am holi Cyngor Gwynedd eto.

11. Llangybi

a) Llywodraethwr Cymuned Ysgol Llangybi- y Cynghorydd Angela Williams a'r Clerc wedi cysylltu hefo Mr Bryn Jones, Llety Plu, Llangybi, ac mae yn fodlon bod yn Lywodraethwr, - angen cadarnhau ar y noson. **Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr yn diolch i Mr Mark Barlow am ei waith dros y 12 mlynedd diwethaf.**

b) Arwydd bach 30 m.y.a rhwng Capel Helyg a Groeslon 'Refail, Llangybi wedi ei ddymchwel. **Angen cysylltu â Chyngor Gwynedd i'w drwsio.**

c) Ciosc - un gwydr gwaelod wedi malu yno - y Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd, ac fe wnaethant fynd yno i glirio'r gwydr. Oherwydd fod peth amhaeath mai peiriant contractwr yn torri gwellt wnaeth achosi'r difrod, mae'r mater wedi cael ei basio i Adran Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd ers 29.07.2020, ond heb gael ateb eto. Clerc wedi holi eto ond heb dderbyn ateb.

12. Enwau lleol - ystyried gosod arwyddion o enwau lleol yn y gymuned, sef enwau pontydd, afonydd, enw cynhenid ambell groesffordd, a'i gwneud yn weledol i bawb ei gwybod a'i defnyddio i'r dyfodol. **Trafodwyd y camau nesaf, gan ofyn i bawb gasglu enwau erbyn mis Tachwedd. Trafodwyd y byddai'n syniad cysylltu â'r Gronfa Genedlaethol wedyn hefyd, er mwyn ei mapio'n saff ar gyfer y dyfodol.**

13. Cais gan Gyngor Tref Nefyn i ddatgan cefnogaeth i fesurau fyddai'n atal tai rhag mynd o afael pobl lleol. Dywedwyd fod 30% o dai yn Morfa Nefyn, a 15% o dai yn Nefyn yn ail gartrefi. Y bwriad yw dod â'r mater i sylw'r Llywodraeth a Chyngor Gwynedd er mwyn i fesurau gael ei cyflwyno i roi gwell sicrwydd bod tai yn lleol yn mynd i bobl lleol. **Trafodwyd y mater, gan ofyn i'r Clerc anfon llythyr atynt yn cefnogi y ddogfen mewn egwyddor, a diolch i Gyngor Tref Nefyn am ddwyn sylw i'r broblem.**

Materion Ariannol

14. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Bydd y Clerc yn anfon epost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 01.10.2020. **Derbyn.**

15. **Archwiliad Allanol Cyfrifon 2019-20.**

Y Clerc heb glywed dim gan yr Archwilwyr Allanol eto. Mae hefyd wedi gosod yr hysbysiadau ar y wefan.

16. **Elusen William Ellis** - wedi derbyn £100.00 o iawndal gan fanc NatWest oherwydd ei bod yn hir yn newid manylion y cyn Glerc, i enw'r Clerc newydd, roedd hyn yn dilyn rhoi cwyn i'r banc. **Derbyn.**

17. Taliadau BACS wedi cael ei gwneud yn dilyn cyfarfod 03.09.2020:

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad £	Taliad BACS
<i>O Ddrws I Ddrws</i>	Cais am gymorth ariannol-ei dalu o'r cyfrif Budd-cymunedol yn dilyn caniatâd gan y Cadeirydd.	<u>500.00</u>		<u>500.00</u>	<u>500.00</u>

18. Taliadau BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod 01.10.2020:-

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad £	Taliad BACS
<i>Plas Contracting Ltd., Plas Newydd, Chwilog</i>	Gosod postyn 'steel galvanised' i osod bin baw ci arno, Lon y Plas, Chwilog - deunydd a llafur (PCL/819)	<u>148.00</u>	<u>29.60</u>	<u>177.60</u>	<u>177.60</u>

Cyflwg mis Medi 2020 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS :- £
Cyflwg sylfaenol y Clerc, Medi 2020 35 awr x £10.83 = £379.05	379.05 - Llai treth £76 = £303.05	<u>303.05</u>	<u>303.05</u>
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Medi 2020	380.00 x 20% = £76.00	<u>76.00</u>	<u>76.00</u>
Costau'r Clerc Medi 2020	£42.21	<u>42.21</u>	<u>42.21</u>

Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf nos Iau 05.11.2020, drwy 'Zoom'.

Hefyd, oherwydd nad oedd digon o'r Cynghorwyr yn gallu bod yn bresennol i gynnal cyfarfod busnes/cyllid ar y 1.10.2020, fe benderfynwyd ail drefnu i gael cyfarfod fis Tachwedd, ar ol cysylltu â nhw i drefnu amser cyfleus i pawb.